

# Newyddlen

## Hydref 2020

### Cenhadaeth SSCE Cymru

#### Gwybodaeth a thystiolaeth

Cydgysylltu gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth ar brofiadau plant sy'n gwasanaethu yn maes addysg i sicrhau bod dealltwriaeth dda o'u hanghenion.

#### Gweithgareddau ac adnoddau

Cydweithio ag aelodau rhwydwaith SSCE Cymru i gynnal gweithgareddau a chynhyrchu adnoddau a fydd yn helpu i gefnogi plant y lluoedd ar hyd eu haddysg.

#### Polisi a Systemau Ategol

Gweithio gyda sefydliadau i roi tystiolaeth ac effaith polisi sy'n berthnasol i gefnogi plant mewn addysg.



## Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (RSLOs) ar gyfer Plant Milwyr

Ar y cyd gyda Brigâd 160 (Cymru), mae WLGA wedi cael nawdd gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog i gyflwyno Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol Plant Milwyr yng Nghymru. Caiff y RSLOs eu cynnal gan y pedwar awdurdod lleol arweiniol, Ynys Môn, Casnewydd, Sir Benfro a Bro Morgannwg.

Gan ganolbwyntio ar gefnogi ysgolion i ddeall anghenion plant Milwyr a gwreiddio gweithgareddau i sicrhau systemau cymorth cynaliadwy, mae rhai o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnwys yng nghynllun gwaith RSLOs yn cynnwys:

- Cefnogi awdurdodau lleol i nodi nifer a lleoliad plant Milwyr yng Nghymru
- Cefnogi ysgolion i gael gafael ar gyllid a nodi ffyrdd o fesur yr effaith
- Nodi ffyrdd y gall ysgolion fod yn fwy cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog
- Rheoli achosion cymorth iechyd meddwl a lles / ymyriadau penodol plant milwyr
- Cydweithio â Swyddogion Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog rhanbarthol (AFLOs)
- Cefnogi cynhyrchu adnoddau SSCE Cymru newydd.

I gael mwy o fanylion am rolau a manylion cyswllt RSLO ewch i wefan [wefan SSCE Cymru](#).

## Casglu data SSCE Cymru

Ar hyn o bryd mae SSCE Cymru yn ymwybodol o oddeutu 2,200 o blant Milwyr mewn tua 430 o ysgolion yng Nghymru. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu'r ffordd orau i gipio data yn 2020.

**Pam mae angen data arnom:**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £200,000 ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 i fynd i ysgolion i gefnogi eu plant Milwyr.
- Gall y pedwar RSLO newydd weithio gydag ysgolion sydd wedi nodi plant Milwyr, i ddatblygu gwybodaeth, ymgorffori arfer da a chefnogi mynediad at gyllid grant a chyfleoedd hyfforddi perthnasol.
- Gall SSCE Cymru ddefnyddio'r data i ddeall anghenion plant Milwyr yng Nghymru yn well a chefnogi newid polisi lle bo angen.
- Bydd data cywir yn fuddiol i lawer o sefydliadau eraill sy'n rhan o rwydwaith SSCE Cymru.

## Cymorth Covid-19

Mae gwefan SSCE Cymru yn cynnwys tudalen gymorth Covid-19, sy'n darparu gwybodaeth / cyngor / arweiniad a chyfeirio i sefydliadau ac adnoddau sy'n berthnasol i gefnogi plant Milwyr yn ystod pandemig y Coronafeirws. Efallai bydd y wybodaeth yn fuddiol i ysgolion/lleoliadau addysg, awdurdodau lleol a rhieni/gofalwyr plant milwyr.

Yn ogystal, ychwanegwyd y cynnwys canlynol yn ddiweddar:

- Gweithgareddau sydd wedi'u cynnal neu sy'n digwydd trwy SSCE Cymru
- Arsylwadau ysgol ar effaith Covid-19 ar blant Milwyr
- Enghreifftiau o gefnogaeth a ddarperir gan ysgolion i blant Milwyr

Enghreifftiau o ffyrdd y mae ysgolion yn cynllunio i gefnogi plant Milwyr yn ystod y cyfnod adfer.

[www.SSCECymru.co.uk/Cymraeg/ysgolionacawdurdodaulleol/cymorthcovid19](http://www.SSCECymru.co.uk/Cymraeg/ysgolionacawdurdodaulleol/cymorthcovid19)

## Arolwg rhieni / gofalwyr yn y lluoedd arfog

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae SSCE Cymru wedi cyflawni arolwg ysgolion a grwpiau trafod gyda phlant Aelodau'r Lluoedd Arfog. Gweler [gwefan SSCE Cymru](#) i weld canfyddiadau'r gweithgareddau hyn. Hoffai SSCE Cymru roi cyfle i rieni / gofalwyr plant aelodau'r Lluoedd Arfog rannu eu profiadau am fyw yng Nghymru / symud i Gymru, yr effaith mae eu ffordd o fyw yn ei gael ar addysg eu plant a'r gefnogaeth maent wedi ei chael gan ysgolion.

Byddai diddordeb gennym i glywed gan rieni / gofalwyr plant aelodau'r Lluoedd Arfog sydd ar hyn o bryd neu a oedd yn arfer gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn ogystal â'r rhai hynny sydd ar hyn o bryd yn byw neu a oedd yn arfer byw yng Nghymru.

**Bydd yr arolwg yn cau ddydd Gwener 30 Hydref.**

Helpwch ni i hyrwyddo'r arolwg trwy rannu o fewn eich rhwydweithiau a'ch cysylltiadau.

[Arolwg rhieni / gofalwyr yn y lluoedd arfog](#)

Am ragor o wybodaeth ar rhaglen SSCE Cymru ewch i [www.SSCECymru.co.uk](http://www.SSCECymru.co.uk) a dilyn [@SSCECymru](https://twitter.com/SSCECymru) ar Twitter

Mae croeso i chi ddosbarthu newyddlen SSCE Cymru i'ch rhwydwaith a'ch cysylltiadau eich hun. Gall unrhyw un sydd am ymuno â Rhwydwaith SSCE Cymru gofrestru [yma](#).

## Y diweddaraf yn ymwneud â chyllid

### Canllaw nawdd SSCE Cymru

Cynhyrchodd aelodau rhwydwaith SSCE Cymru y ddogfen hon i roi gwybodaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru am y ffrydiau ariannu sydd ar gael, ynghyd â chyngor ar lenwi'r ffurflenni cais. Mae'r cyngor yn dod gan aelodau o'r paneli ariannu, yn ogystal a ysgolion ac awdurdodau lleol sydd wedi bod yn llwyddiannus yn gwneud cais am y grantiau.

Cynhyrchwyd y ddogfen ganllaw yn 2019 i ddechrau ac fe'i diweddarwyd yn ddiweddar i adlewyrchu manylion yr arian sydd ar gael ar gyfer 2020/21.

[Plant Milwyr – canllawiau cyllid i ysgolion yng Nghymru](#)

### Cyllid Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £200,000 i ysgolion gefnogi plant Milwyr yn y flwyddyn academaidd 2020/21.

Ar hyn o bryd mae CLILC yn gweithio gyda:

- Llywodraeth Cymru - i sefydlu sut y bydd y cronfeydd hyn yn cael eu blaenoriaethu a'u dosbarthu
- Awdurdodau lleol - i gasglu data ar blant Milwyr i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddsbarthu'n deg ledled Cymru.

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru: [£250,000 i gefnogi plant y lluoedd arfog yn ysgolion Cymru](#)

## Cyllid y Weinyddiaeth Amddiffyn



Ministry  
of Defence

### Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) – cronfa cymorth addysg (ESF) (2021)

Mae £3m ar gael ledled y DU i gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol i oresgyn yr heriau y maent yn eu wynebu wrth gefnogi plant sy'n derbyn gwasanaeth o ganlyniad i symudedd a/neu leoli sylweddol.

**Dyddiad cau ymgeisio: 7fed o Hydref 2020.**

## Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog

### Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog: Rhaglen Llu dros Newid

Rhaglen grantiau leol, sy'n dyfarnu grantiau hyd at £20,000 i brosiectau sy'n cefnogi cymunedau'r Lluoedd Arfog i fynd yn llai ynysig ac ymgysylltu mwy yn eu hardal leol.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 30 Tachwedd 2020.**

### Rhaglen Cymunedau gyda'n Gilydd Lluoedd Arfog 2020/21

Mae llwyddiant prosiect ysgolion/addysg yng Nghymru yn cynnwys:

- Ysgol Gynradd Glyn-Gaer – Ffitrwydd a Chyfeillgarwch y Lluoedd Arfog
- Ysgol Gynradd Palmerston – Palmerston ynghyd â Ffitrwydd y Lluoedd Arfog
- Ysgol Gynradd Sain Tathan – Canu Gyda'n Gilydd
- Oriol y Vc – ymosodiad celf y Lluoedd Arfog.

Gweler y rhestr lawn o geisiadau llwyddiannus [yma](#).



ARMED FORCES  
COVENANT  
LLUOEDD ARFOG  
CYFAMOD

**Mae canllawiau a chyngor ar ymgeisio am grantiau ar gael yma  
[www.SSCECymru.co.uk/Cymraeg/ysgolionacawdurdodaulleol/cyllid](http://www.SSCECymru.co.uk/Cymraeg/ysgolionacawdurdodaulleol/cyllid)**

## Y wybodaeth ddiweddaraf am Rwydwaith SSCE Cymru

### Addysg



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### **Diffiniad Llywodraeth Cymru o blentyn Milwr**

Mae gan 'blentyn milwr' riant (rhieni) - neu berson(au) sy'n ymarfer cyfrifoldeb riant – sy'n bersonél i Wasanaethau'r Lluoedd Arfog:

- Yn Lluoedd Arfog Rheolaidd EM
- Wedi ymrwymo'n llawn fel rhan o'r gwasanaeth Wrth Gefn amser llawn
- Yn gyn-filwr sydd wedi bod mewn gwasanaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf
- Bu farw un o'u rhieni wrth wasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac mae'r disgybl yn derbyn pensiwn o dan Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog neu'r Cynllun Pensiynau Rhyfel.



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddulliau hynod effeithiol o addysg gymunedol a ddefnyddir gan ysgolion cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig. Gyda llawer o'r argymhellion yn berthnasol i ysgolion sy'n cefnogi eu plant Milwyr a chymuned y Lluoedd Arfog.



**Llwyddiant i Bawb**

Yn ogystal â'r rhaglenni "clasurol" mwy, mae Llwyddiant i Bawb yn cynnig ystod newydd o becynnau ymatebol â ffocws tynn i ysgolion fynd i'r afael â'r hanfodion datblygiad proffesiynol allweddol sy'n wynebu lleoliadau addysg heddiw.

Gan gynnwys:

- Cefnogaeth Arweinyddiaeth Covid-19. Arweinyddiaeth ddofn - Rhoi Lles wrth galon Arweinyddiaeth ... Gofalu am arweinwyr
- Cau'r Bwlch
- Ail-ymgysylltu â Rhieni
- Rhoi Lles wrth Galon Dysgu.

I gael rhagor o wybodaeth am y Rhaglen am gefnogi Plant Milwyr trwy arweinyddiaeth gref ac angerddol yn ogystal â diwylliant cadarnhaol sy'n blaenoriaethu Lles ar gyfer Llwyddiant, cysylltwch â:

[Amanda.jones@afaeducation.org](mailto:Amanda.jones@afaeducation.org)

[www.afaeducation.org](http://www.afaeducation.org)

## Sefydliadau'r Lluoedd Arfog



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Cyfamod y Lluoedd Arfog: adroddiad blynyddol 2019

Ar gael [yma](http://yma). Mae'r adroddiad yn cynnwys adran ar addysg (tudalennau 35-37).

## Gwobrau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru 2020

Oherwydd y sefyllfa barhaus gyda COVID 19 mae'r Bde Comd wedi penderfynu canslo seremoni wobrwyo eleni a gynlluniwyd ar gyfer mis Tachwedd. Bydd enwebiadau a gyflwynwyd eisoes yn trosglwyddo i 2021 i'w hystyried.



**Lleisiau Plant y Lluoedd Arfog:** Mae Never Such Innocence yn gwahodd plant Milwyr i leisio'u barn trwy farddoniaeth, celf, areithiau a chân. Bydd cyfleoedd cyffrous ar gael i'r rhai sy'n cymryd rhan!  
Ewch i [www.neversuchinnocence.com](http://www.neversuchinnocence.com) i gael mwy o wybodaeth.

**Gweithdy Barddoniaeth Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin:** Ar 29 Hydref 2020 am 10:30 a 13:30, bydd Never Such Innocence yn cynnal dau weithdy barddoniaeth i blant 8+ gyda Bardd Preswyl Never Such Innocence a'r Cyn-filwr, Clive Sanders yn Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin, Llundain. Mae lleoedd yn gyfyngedig.  
I gofrestru, cysylltwch â [ks@neversuchinnocence.com](mailto:ks@neversuchinnocence.com)

**Cystadleuaeth Ryngwladol Barddoniaeth, Celf, Lleferydd a Chân:** Mae [cystadleuaeth](#) 2020/21 bellach ar agor! Gwahoddir pobl ifanc 9-18 oed i greu gwaith ar y thema, *Unheard Voices of Conflict: Stories from Around the World*. Mae mynediad am ddim a gellir ei wneud ar-lein.  
Y dyddiad cau i gystadlu yw 19 Mawrth 2021.

**Gweithdai i Ysgolion:** Mae Never Such Innocence yn cynnig gweithdai am ddim i ysgolion ledled y DU i helpu disgyblion i greu darnau gwych o waith i gystadlu yn eu cystadleuaeth ryngwladol. Mae gweithdai yn cael eu hwyluso gan weithwyr proffesiynol profiadol o feysydd ysgrifennu barddoniaeth, areithiau a chaneuon sy'n cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.  
I ofyn am weithdy, cysylltwch â: [enquiries@neversuchinnocence.com](mailto:enquiries@neversuchinnocence.com).



### **Gwasanaeth Ymgynghorol Addysg Plant (CEAS) Awgrymiadau gorau ar gyfer cefnogi plant teuluoedd Milwyr:**

- Cymerwch amser i ddeall a gwerthfawrogi effaith bywyd Milwyr ar blant a phobl ifanc, eu datblygiad, a'u lles hirdymor.
- Cydnabod pob plentyn a pherson ifanc fel unigolyn. Cydnabod eu cyflawniadau a'u profiadau yn y gorffennol ond cofiwch hefyd am yr effaith y gall eich gweithredoedd ei chael pan fyddant yn symud nesaf. Sut allwch chi helpu i'w paratoi ar gyfer trosglwyddo i ysgol, gwlad neu gwricwlwm gwahanol?
- Byddwch yn barod am newidiadau posibl mewn hwyliau neu ymddygiad mewn plant, pobl ifanc a'u rhieni pan fydd gwahaniad ar droed neu'n digwydd.
- Gwybod sut i wrando'n weithredol ac ymateb i gwestiynau anodd yn briodol heb roi sicrwydd ffug.
- Peidiwch â gorfodi plant a phobl ifanc i siarad os nad ydyn nhw eisiau gwneud hynny ond gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n gwybod eich bod chi neu rywun arall ar gael pe bydden nhw eisiau siarad.
- Byddwch yn barod am ostyngiad posibl mewn cyrhaeddiad yn dilyn cyfnod pontio neu yn ystod gwahaniad a chydabod y bydd hyn yn fwyaf tebygol dros dro.
- Byddwch yn ymwybodol y gallai fod yn rhaid i rai plant a phobl ifanc ymgymryd â rôl gofalwr ifanc a gallai hyn gael effaith ar gwblhau gwaith cartref a chyrraedd yr ysgol mewn pryd. Dangoswch ddealltwriaeth ac o bosibl cynnig amser yn ystod y diwrnod ysgol ar gyfer astudio neu gwblhau gwaith cartref.
- Peidiwch â disgwyl i bopeth ddychwelyd i fod yn 'normal' pan fydd y rhiant absennol yn dychwelyd gan y gall ail-addasu gymryd amser hir.

Mae [CEAS](#) yn dîm a ddarperir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i ddarparu cyngor a gwybodaeth addysgol i deuluoedd Milwyr a hefyd i gynnig cyngor addysgol proffesiynol i'r rhwydwaith lles.  
Am wybodaeth neu gefnogaeth bellach, cysylltwch â: [DCYP-CEAS-Enquiries@mod.gov.uk](mailto:DCYP-CEAS-Enquiries@mod.gov.uk)



Ministry  
of Defence

Mae tîm Gwasanaeth Lles y Fyddin Cymru (AWS) yn Sir Benfro wedi bod yn brysur dros yr haf yn darparu ystod o weithgareddau atyniadol i bobl ifanc ledled yr ardal sydd wedi'u cynllunio i fod yn hwyl, yn ddiogel ac yn gwella hwyliau. Fe wnaeth hyd at 120 o bobl ifanc ar draws y gymuned filwrol wneud cais am y pecynnau adnoddau a ddyluniwyd yn arbennig, ynghyd â chysylltiadau fideo cam wrth gam, a grëwyd yn broffesiynol i gynorthwyo'r artistiaid ifanc i greu eu campweithiau cloi. I ddathlu gwaith pobl ifanc, mae'r AWS yn bwriadu llunio llyfr lle bydd gan bawb sy'n cymryd rhan gopi, a fydd yn atgof parhaol cadarnhaol o'r amseroedd anarferol hyn.



Mae elusen y Reading Force yn rhoi llyfrau a llyfrau lloffion arbennig am ddim i blant Milwyr o bob oed, er mwyn annog teuluoedd y Lluoedd (sy'n gwasanaethu, yn gyn-filwyr a milwyr wrth gefn) i rannu llyfrau, sgwrsio amdanynt a llenwi llyfr lloffion.

Mae ar gael i holl deuluoedd y Lluoedd, gartref neu i ffwrdd. Mae'n arbennig o ddefnyddiol pan fydd rhiant wedi'i wahanu oddi wrth blant oherwydd eu bod ar ymgyrch neu yn hyfforddi, fel ffordd o gadw'n agos, ac i gadw mewn cysylltiad â neiniau a theidiau a allai fod yn gwarchod, a theulu estynedig ymhell i ffwrdd, ac mae'n helpu'r teulu i gadw mewn cysylltiad.

***"Mae hwn yn gynllun gwych. Fe wnaethoch anfon llyfr at fy merch na fyddai fel rheol wedi'i ddarllen ac erbyn hyn mae hi eisiau darllen llyfrau eraill gan yr un awdur. Diolch!"***

Mae adnoddau'r Reading Force yn rhad ac am ddim a gellir eu rhoi i deuluoedd gan ysgolion, lleoliadau lles, a grwpiau cymunedol fel rhan o'u cefnogaeth fugeiliol.

Gall ysgolion a lleoliadau gofrestru ar-lein i dderbyn llyfrau lloffion ar gyfer teuluoedd a phlant:

[www.readingforce.org.uk](http://www.readingforce.org.uk)



## Gwasanaethau Lles y Fyddin - Llwyddiant Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog



Ministry  
of Defence

Mae'r Gweithiwr Datblygu Cymunedol (CDW) yn MOD Sain Tathan wedi llwyddo gyda dau gais am gyllid.


Mae un prosiect ar gyfer Podiau Micro Bach awyr agored a fydd yn galluogi ymgymryd â llawer o weithgareddau. Yr ail yw prosiect Blwch ar gyfer Celf a Chrefft a gweithdai. Gan ymgysylltu ag Ignite a fydd yn ymgymryd â'r gweithgareddau a'r gweithdai prosiect ac a fydd yn darparu artistiaid a fideos.

## Addurdodau Lleol



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Yn ystod rhan gynnar y cyfnod clo, gweithiodd Swyddog Cyswilt Cyfamod y Lluoedd Arfog (AFLO) gyda'r awdurdodau lleol i roi neges 'Pen-blwydd Hapus' i'r Capten Tom Moore. Cynhyrchodd Canolfan Plant Ceredigion ar gyfer gweithwyr allweddol, gan gynnwys plant Milwyr, y cardiau hyfryd hyn.



## Ysgolion



### Llwyddiant Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mewn cydweithrediad â Gweithiwr Datblygu Cymunedol Gwasanaeth Lles y Fyddin (AWS) yn Aberhonddu, mae ysgol uwchradd Aberhonddu wedi sicrhau cyllid ar gyfer prosiect gardd, ardal awyr agored a gweithgareddau coginio. Bydd y gweithgareddau'n cynnwys prynu cynhwysion ac adnoddau i wneud cacennau Nadolig a phrynu gliniaduron a llechi.

Mae AWS hefyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer gwella ceginau yn y Ganolfan Gymunedol, gosod trydan yn y Ganolfan, dau bopty newydd, byrddau a lloches awyr agored i alluogi cynnal sesiynau yn yr awyr agored.



## Aelodau rhwydweithiau eraill



Ar ôl arloesi yn llwyddiannus â llawer o fentrau i gryfhau cysylltiadau teuluol ar gyfer carcharorion a'u teuluoedd, mae CEM Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr, wedi penodi ei Gydylydd Teulu, Ysgolion a Charchardai ei hun, Julie Williams yn ddiweddar. Rhan o rôl newydd Julie fydd meithrin perthnasoedd newydd a phresennol rhwng cyn-filwyr a'u teuluoedd y mae eu plant yn grŵp unigryw o bobl ifanc sydd â set unigryw o anghenion.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â: [julie.williams@uk.g4s.com](mailto:julie.williams@uk.g4s.com)

University of  
South Wales  
Prifysgol  
De Cymru

### Diwrnodau Lluoedd Creadigol ym Mhrifysgol De Cymru

Ers nifer o flynyddoedd, mae Prifysgol De Cymru wedi cefnogi personél Rheolaidd, Wrth Gefn a Chyn-filwyr y lluoedd arfog i ennill cymwysterau achrededig a gydnabyddir yn rhyngwladol. Yn 2018, dyfarnwyd gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r Brifysgol, am ei gwaith rhagorol yn cefnogi a chynnig cyfleoedd academiaidd i bersonél milwrol y gorffennol a'r presennol. Yn ystod tymor yr hydref, bydd y Tim Ehangu Cyfranogiad ym Mhrifysgol De Cymru yn cynnal digwyddiad allgymorth ar-lein yn cynnig sesiynau cyffrous,

rhyngweithiol ac atyniadol, i gefnogi plant Milwyr sy'n byw yn Ne Cymru. Bydd rhaglen y digwyddiad yn cael ei chadarnhau cyn bo hir. Am wybodaeth bellach, ac i gofrestru'ch diddordeb, cysylltwch â:

[schoolsandcolleges@southwales.ac.uk](mailto:schoolsandcolleges@southwales.ac.uk)

Pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, gwahoddir y plant a'u rhieni i [Ddiwrnod Lluoedd Creadigol](#) dilynol, a gynhelir ar un o gampysau'r Brifysgol. Yn y digwyddiad hwn, gall plant a'u rhieni gymryd rhan mewn sesiynau ychwanegol a byddant yn cael cyfle i ddarganfod sut beth yw bywyd yn y brifysgol mewn gwirionedd.



### 'Maen nhw'n dweud bod byddin yn gorymdeithio ar ei stumog...'

Yn Feeding My Army, mae gwraig milwr a chogydd teledu Beca Lyne-Pirkis yn arddangos bwyd blasus sydd wedi'i gynllunio i'n cadw ni i gyd i fynd. O brydau caledi yn ystod y rhyfel i fod yn addas ar gyfer prif weinidog, mae pob tudalen yn cyflwyno ryseitiau a ysbrydolwyd gan brofiad ei theulu o dros gan mlynedd o fywyd y fyddin.

Ymhlith y penodau mae:

- Make do and dig for victory
- Cookhouse classics
- Rations reinvented
- Keep the home fires burning
- Solo suppers
- Posting abroad
- Homecoming
- In memoriam.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â [sue@gomer.co.uk](mailto:sue@gomer.co.uk)

## Adnoddau



### Homeport

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma:  
<https://nff.org.uk/homeport-magazine/>



### Cylchgrawn Army & You

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma: <https://bit.ly/AYsum20>



### Envoy

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma:  
<https://www.raf-ff.org.uk/publications/envoy-magazine/>

## Astudiaethau achos

Mae gan SSCE Cymru gyfres o astudiaethau achos ar y [wefan](#), sy'n rhannu enghreifftiau o arfer da mewn ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Cymru.

I ddweud wrthym am y gwaith rydych yn ei wneud a sut mae hynny wedi bod o fudd i blant milwyr neu gymuned yr ysgol, cysylltwch â [SSCE@wlga.gov.uk](mailto:SSCE@wlga.gov.uk).

# Digwyddiadau i ddod



Cynhadledd y Gyngyrair SCiP 2020

Dydd Mawrth 20 Hydref 2020 (9:00 - 16:30)

Cynhelir Cynhadledd Flynyddol Cyngyrair SCiP eleni ar-lein, gan gysylltu ymarferwyr, llunwyr polisi ac ymchwilyr sydd â diddordeb yng ddilyniant addysgol plant o deuluoedd y Lluoedd Arfog.

I archebu lle yn y digwyddiad, ewch i: [www.scipalliance.org](http://www.scipalliance.org)

Mae gwefan SSCE Cymru bellach yn cynnwys calendr o ddigwyddiadau. Cliciwch [yma](#) i weld manylion:

- Digwyddiadau sydd i ddod gan SSCE Cymru
- Digwyddiadau rhydwaiith aelodau sydd i ddod gan SSCE Cymru
- Fforymau Lluoedd Arfog sydd i ddod
- Fforymau Lluoedd Arfog Bwrdd Iechyd y Brifysgol sydd i ddod
- Manylion digwyddiadau blaenorol SSCE Cymru (gan gynnwys copïau o raglenni a chyflwyniadau).

I rannu manylion digwyddiad sy'n berthnasol i Gymuned y Lluoedd Arfog, cysylltwch â



Bydd Newyddlen nesaf SSCE Cymru yn cael ei ddosbarthu yn Gaeaf 2020.

Os hoffech gyfrannu cynnwys i'r rhifyn nesaf, anfonwch y deunydd i [SSCE@wlga.gov.uk](mailto:SSCE@wlga.gov.uk) erbyn 27 Tachwedd.



Dilynwch ni ar Twitter [@SSCECymru](https://twitter.com/SSCECymru)